UCAC
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

# Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Wrecsam

Mawrth 2014

UCAC | yr undeb sy'n diogelu athrawon a darlithwyr Cymru

www.athrawon.com

## Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17: Wrecsam

Mae UCAC yn croesawu'r cyfle i ymateb i'r ymgynghoriad hwn gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam ar ei Gynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg 2014-17.

Mae UCAC yn undeb llafur sy'n cynrychioli athrawon, arweinwyr ysgol a darlithwyr ym mhob sector addysg yng Nghymru.

### Adran 1: Gweledigaeth a nodau ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg

Teimla UCAC fod yr adran hon yn amlinellu gweledigaeth glir.

### Adran 2: Y Cynllun Gweithredu

**Deilliant 1: Mwy o blant saith oed yn cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

**1.1 Cynyddu nifer y dysgwyr saith oed sy'n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg**

**1.2 Mabwysiadau dulliau cadarn o fesur y galw am ddarpariaeth gofal plant ac addysg statudol cyfrwng Cymraeg. Gweithredu'n brydlon ar gasgliadau arolygon rhieni**

**1.3 Sicrhau bod cynigion ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif yn cynnwys ystyriaeth lawn o addysg cyfrwng Cymraeg**

Mae'r bwriad i gynyddu'r plant saith oed sy'n derbyn addysg cyfrwng Cymraeg yn glodwiw, ond dengys y ffigyrau mai *cynnal* yn hytrach na chynyddu'r niferoedd yw'r bwriad, er bod gwneud hynny'n golygu bod cynnydd bychan yn y canrannau.

Deallwn fod Ysgol Plas Coch yn dal i fod yn orlawn, ac yn parhau i wneud defnydd helaeth o gabanau, er gwaethaf agor ysgol gynradd Gymraeg newydd yn y ddinas. Awgryma hynny fod y galw am addysg gynradd cyfrwng Cymraeg yn dal i fod yn fwy na'r ddarpariaeth a gynigir.

Er gwaetha'r datganiad ynghylch digonolrwydd Ysgol Morgan Llwyd o ran cynhwysedd, tybiwn y bydd yr ymchwydd yn y sector cynradd yn rhoi pwysau sylweddol, a hynny'n fuan, ar yr ysgol, a bod angen cynllunio ar frys ar gyfer hynny.

**1.5 Cynyddu gallu i fanteisio ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy gynlluniau trochi a chanolfannau i hwyrddyfodiaid:** Croesawn y bwriad i wella'r ddarpariaeth hon. Fodd bynnag, hoffem weld targed mwy penodol yng ngholofn C - targed mesuradwy sy'n crynhoi ac yn gosod uchelgais concrit ar gyfer sut y bwriedir gwella'r ddarpariaeth e.e. niferoedd uwch o ddysgwyr, gwell lefelau o ddilyniant.

**Deilliant 2: Mwy o ddysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau iaith wrth drosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd**

Mae'r targedau a'r camau gweithredu'n glir.

**Deilliant 3: Mwy o fyfyrwyr 14-16 oed yn astudio ar gyfer cymwysterau drwy gyfrwng y Gymraeg**

**Deilliant 4: Mwy o fyfyrwyr 16-19 oed yn astudio pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg, mewn ysgolion, colegau a dysgu seiliedig ar waith**

Unwaith eto, mae'r targedau a'r camau gweithredu yn yr adran hon yn glir ac yn gymeradwy.

**Deilliant 5: Rhagor o fyfyrwyr â sgiliau uwch yn y Gymraeg**

Ar y cyfan, mae'r targedau a'r camau gweithredu'n glir.

**5.4 Gwella darpariaeth a safonau Cymraeg Ail Iaith:** Er y nodir bwriad i barhau i gynyddu nifer y disgyblion sy'n sefyll y cwrs llawn, ni nodir mewn digon o fanylder pa gamau fydd yn arwain at y cynnydd hwn.

**Deilliant 6: Darpariaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol cyfrwng Cymraeg**

Clir a chadarn.

**Deilliant 7: Cynllunio'r gweithlu a datblygiad proffesiynol parhaus**

Cytuno.



**UCAC**
Undeb Cenedlaethol Athrawon Cymru

Prif Swyddfa **UCAC**, Ffordd Penglais, Aberystwyth, Ceredigion SY23 2EU
ffôn: 01970 639950 | ffacs: 01970 626765 | ucac@athrawon.com
facebook.com/AthrawonCymru twitter.com/AthrawonCymru

www.athrawon.com